# Tasg 3

# Ar werth

Chwiliwch am lun cartref ar y we e.e. tŷ, fflat, byngalo, carafán – unrhyw fath o gartref.

1. Rydych chi'n mynd i geisio gwerthu'r cartref yma i'r grŵp. Yn gyntaf, rhaid i chi ysgrifennu taflen am y cartref. Rhaid i chi ganolbwyntio ar:

   - Yr ardal: dywedwch ble mae'r cartref, e.e. ar lan y môr, yng nghanol dinas ac ati
   - Y cyfleusterau: ydy'r cartref yn agos i ysgolion, ysbytai, siopau ac ati; oes bws / trên gerllaw?
   - Y tŷ: disgrifiad o'r tu mewn – sawl llawr, pa ystafelloedd sydd ar bob llawr – disgrifiad o'r tu allan – oes gardd, garej ac ati
   - Y pris: os dydych chi ddim yn siwr o brisiau tai, edrychwch ar brisiau tai sydd ar werth yn eich ardal chi – naill ai ar-lein neu ar daflenni gwerthwyr tai.

Cofiwch!

Gan eich bod chi eisiau gwerthu'r cartref, rhaid i chi ddweud pethau da. Rhaid i chi berswadio pobl eraill fod y cartref yma'n wych.

Os ydych chi eisiau gweld enghraifft o daflen gwerthu tai, darllenwch y darn **Ar werth.**

**Gwaith grŵp**

2. Ar ôl gorffen y daflen, ceisiwch werthu'r tai i'ch gilydd.

   Rhowch wybodaeth am y cartref i'r grŵp.

   Gofynnwch gwestiynau i'ch gilydd.

   Yna, rhaid i bob aelod o'r grŵp bleidleisio dros y cartref hoffai ei brynu.

3. Faint yw pris pob cartref?
Ysgrifennwch y pris mewn ffigurau ac mewn geiriau mewn grid fel yr un yma.

| **Cartref ………… (enw'r disgybl)** | **Math o gartref** | **Pris - ffigurau** | **Pris geiriau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

4. Mae tai, byngalos, fflatiau ac ati'n ddrud iawn i'w prynu. Felly, sut mae pobl yn gallu cael arian i brynu cartref?

Trafodwch eich syniadau.

Dyma rai geiriau i'ch helpu chi.

| | | |
|---|---|---|
| morgais, morgeisi | Swm o arian rydych chi'n gallu ei fenthyg, o gymdeithas adeiladu neu fanc fel arfer, i'ch helpu chi i brynu tŷ. Rhaid i chi dalu llog. | mortgage, mortgages |
| benthyg, cael benthyg | Cael arian, o gymdeithas adeiladu neu fanc fel arfer. Rhaid i chi dalu llog. | to borrow |
| benthyciad | Yr hyn rydych chi'n ei fenthyg. | loan |
| cynilo | Rhoi arian mewn cymdeithas adeiladu neu fanc yn rheolaidd fel bod y swm yn tyfu a bod gennych chi swm o arian i dalu am rywbeth. | to save |
| llog | Pan fyddwch chi'n benthyg arian, rhaid talu mwy yn ôl nag rydych chi'n ei gael. | interest |
| cyfraddau llog | Faint yn fwy fydd rhaid i chi ei dalu, e.e. 1%, 1.5%, 2%. Mae angen bod yn ofalus iawn achos mae'n bosib byddwch chi'n talu yn ôl llawer mwy o arian nag y cawsoch chi ei fenthyg. | interest rates |

- Cymharwch eich syniadau fel dosbarth a thrafodwch hyn ymhellach.
- Chwiliwch am wybodaeth am ddulliau o fenthyg arian ar y we.
- Cymharwch faint o log maen nhw’n codi.